Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care
Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru
SeneddLJC@senedd.cymru
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Llywodraeth Cymru

16 Ionawr 2023

Annwyl Lynne

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2022 ynghylch y Rheoliadau uchod. Yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2023, trafododd y Pwyllgor eich ymateb, a'ch gohebiaeth â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ddiweddar. Yn dilyn ein trafodaeth, byddem yn falch pe bae'ch yn egluro'r materion a ganlyn (gan gynnwys, pan fo'n briodol) lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol yn y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cael ei osod ochr yn ochr â'r Rheoliadau.

**Amseriad y rheoliadau**

Yn ôl eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd 2022, byddai'r Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 14 Rhagfyr 2022, a byddent yn dod i rym ar 18 Ionawr 2023. Yn eich llythyr dilynol ar 20 Rhagfyr 2022, nodir y caiff y Rheoliadau eu gosod "ym mis Rhagfyr". Nodwyd yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2023 nad yw'n ymddangos bod y Rheoliadau wedi'u gosod eto.

1. A allech chi gadarnhau pryd y disgwylir i'r Rheoliadau gael eu gosod a phryd y byddant yn dod i rym?
2. A allech chi ddweud pam mae'r Rheoliadau wedi'u gohirio, ac a fydd hynny'n arwain at unrhyw ganlyniadau?

**Ymwahanu â Gogledd Iwerddon**

Yn ôl eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2022, ni chynhaliwyd unrhyw asesiad ffurfiol o ymwahanu â Phrydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ran rhwystrau i fasnach neu iechyd cyhoeddus.

3. A allech chi egluro a fydd safonau'n wahanol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ganlyniad i'r diwygiadau a gaiff eu gwneud gan y Rheoliadau'n eu cyflwyno?

**Deddfwriaeth ddwyieithog**

Yn eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr, fe wnaethoch ateb cwestiwn 3 yn y llythyr a anfonodd y Pwyllgor atoch, dyddiedig 1 Rhagfyr 2022, drwy egluro eich bod yn ystyried gwahanol opsiynau i fwrw ymlaen â'r diwygiadau arfaethedig, gan gynnwys yr opsiwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'i Hofferyn Statudol ei hun Fodd bynnag, ni nodwyd a fydd y ddeddfwriaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac a oedd y goblygiadau o ran hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru yn ffactor yn eich ystyriaethau.

4. Os Llywodraeth y DU fyddai'n gwneud y rheoliadau, a ystyriwyd a fyddai hynny'n effeithio ar hygyrchedd y gyfraith ac ar y gallu i sicrhau bod deddfwriaeth ddwyieithog ar gael?

**Ymgynghori â rhanddeiliaid**

Yn eich ymateb i lythyr y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, rydych yn egluro bod Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid penodol dros gyfnod o dair wythnos ynghylch y newidiadau arfaethedig.

5. A allech chi roi manylion y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw, a sut y caiff unrhyw ymatebion eu hadlewyrchu yn y Rheoliadau?

**Diwygiadau a gaiff eu gwneud gan y Rheoliadau**

Diolch am y wybodaeth a gawsom gennych am y sail resymegol ar gyfer y diwygiadau a gaiff eu gwneud gan y Rheoliadau. Rydym yn falch o ddeall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'i Rheoliadau ei hun mewn perthynas â bwyd babanod.

Nodwn yn y bydd un diwygiad yn diweddaru'r diffiniad o weddillion plaladdwyr yn y derminoleg a ddefnyddir yn Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 ac yn defnyddio'r diffiniad mwy cyfyng a nodir mewn rheoliad cynharach (Rheoliad (EC) Rhif 396/2005).

6. A allech chi roi rhagor o wybodaeth am y sail resymegol dros ddefnyddio'r diffiniad mwy cyfyng hwn, a beth fyddai goblygiadau newid o'r fath?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb **erbyn 24 Ionawr 2023**.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.